
# amserbeibl

Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Enw



DARLLENWCH
Actau 4: 1-31



ADNOD ALLWEDDOL
Actau 4: 13

## Astudiaeth 3 Bywyd Pedr – O flaen y Sanhedrin



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**

Luc 12: 11 a 12 2 Timotheus 1: 8 a 9; 4: 2 1 Pedr 2: 20-24

1. Pedr ac Ioan o flaen y Sanhedrin (adnodau 1-22).

Yn y Darlleniad o'r Beibl, mae Pedr ac Ioan yn dal yn y Deml wrth Borth Solomon yn siarad â'r bobl. Gyda nhw roedd y dyn cloff yr oedd Pedr newydd ei iacháu yn enw Iesu Grist o Nasareth.

C **Pwy ddaeth at Pedr ac Ioan pan oedden nhw'n siarad â'r bobl?** 3

C **Pam oedden nhw'n flin?** 1

Felly fe gawson nhw eu cymryd i'r ddalfa a'u rhoi mewn carchar dros nos. Drannoeth, roedd rhaid iddyn nhw fynd o flaen y Cyngor yn Jerwsalem. Roedd llawer o Iddewon pwysig ar y Cyngor.

C **Llanwch y bylchau:- Enw'r Archoffeiriad.** 1



**Tri aelod o'i deulu sy'n cael eu henwi.** 3

**Tri grŵp arall o bobl.** 3

Ychydig fisoedd cyn hyn, roedd ar Pedr ormod o ofn sefyll dros Iesu. (Ioan 18: 17, 25,26) ond yma mae'n dangos pa mor wahanol yw e ar ôl cael yr Ysbryd Glân.
Cyhoeddodd Pedr yn glir pwy yw Iesu Grist (adnodau 8-12) – mor glir nes bod y Cyngor wedi synnu wrth glywed geiriau dewr Pedr ac Ioan. Yn rhannol, roedden nhw'n synnu am nad oedd yr apostolion yn ddynion dysgedig.

C **Beth mae'r Adnod Allweddol yn ei ddweud yr oedd y Cyngor yn ei wybod am yr apostolion?** 1

Daeth y Sanhedrin i'r casgliad mai'r ffaith eu bod nhw wedi bod yng nghwmni Iesu oedd yn gyfrifol am y newid yn eu bywydau. Efallai mai person cyffredin ydych chi ac nad oes gennych le pwysig yn y gymdeithas. Ond y peth sy'n cyfri yw hyn: Ydych chi'n adnabod yr Arglwydd Iesu fel eich Gwaredwr chi? Os ydych, mae'r Ysbryd Glân wedi dod i'ch calon, ac fe gewch chi'r geiriau i'w dweud pan fyddwch chi'n cael eich gwawdio oherwydd eich ffydd. Rhaid i Gristnogion wneud safiad dros eu ffydd, yn arbennig yn y cartref a'r ysgol. Ond dydych chi ddim ar eich pen eich hun! Mae'r Ysbryd Glân gyda chi i'ch helpu (Luc 12: 11 a 12).

**C Beth ofynnodd y Cyngor i Pedr ac Ioan?** 2



?

**C Pa gwestiwn fu'r Cyngor yn drafod ymhlith ei gilydd?**

? 2

Roedd y dyn a gafodd ei wella yn brawf fod gwyrth wedi digwydd y diwrnod cynt ac roedd y Sanhedrin yn gwybod na fedren nhw daflu llwch i lygaid y bobl ynglŷn â hyn. Ond yn anffodus, doedd ganddyn nhw ddim diddordeb yn y gwirionedd nac yn y bobl. Doedd ganddyn nhw ddim diddordeb yn neb ond nhw eu hunain, a beth fyddai'n digwydd iddyn nhw pe bai'r newyddion am Iesu'n mynd ar led.

**C Beth benderfynon nhw ei wneud?** 1

**C Ysgrifennwch yn eich geiriau eich hunan beth oedd ymateb Pedr ac Ioan i'r gorchymyn.** 1

1. Yn y bennod hon, mae hanes Ioan a Pedr yn pregethu'r Efengyl, yn gyntaf i'r bobl gyffredin, ac yna i'r Cyngor. Cafodd eu pregethu ddau ymateb gwahanol iawn: ymateb ffydd (adnod 4) a gwrthwynebiad y Cyngor (adnod 18). Beth bynnag, y peth mwyaf arbennig yn y bennod yma yw ymateb y rhai sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu, nid gwrthwynebiad yr Iddewon i'r apostolion.

## 2. Ymateb y Credinwyr (adnodau 23-31)

**C Beth wnaeth y credinwyr pan ddywedodd Pedr ac Ioan beth oedd wedi digwydd iddyn nhw?** 1

Fe ddechreuon nhw drwy roi clod i Dduw fel Crëwr (adnod 24), ac fel Arglwydd nad yw ei gynlluniau byth yn methu (adnod 28). Wnaethon nhw ddim gofyn i Dduw roi stop ar eu gwrthwynebwyr nac am gael eu cadw oddi wrth eu bygythiadau.

**C Eglurwch, yn eich geiriau eich hunan, beth y gofynnodd Pedr ac Ioan i Dduw amdano (adnodau 29 a 30).** 1

Atebodd Duw ran gyntaf eu gweddi ar unwaith (adnod 31) ac, fel y darllenwn drwy Lyfr yr Actau, fe welwn iddo ateb yr ail ran hefyd. Mae gennym ni Dduw sy'n hoffi ateb gweddïau ei blant.